TAG UG/SAFON UWCH

cbac wjec

TAG UG/Safon Uwch CBAC mewn

# AMGYLCHEDD ADEILEDIG

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL - UNED 1

I'w haddysgu o 2022

UG i'w dyfarnu o 2023
Safon Uwch i'w dyfarnu o 2024

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Arholiadau** | | |
| UNED 1: | Ein hamgylchedd adeiledig | |
| | Papur cwestiynau | 3 |
| | Cynllun marcio | 17 |


© WJEC CBAC Ltd.

| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | | | | | Rhif yr Ymgeisydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

**TAG UG a SAFON UWCH**
**AMGYLCHEDD ADEILEDIG**

**UNED 1**

**EIN HAMGYLCHEDD ADEILEDIG**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**2 awr**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **BOB** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel.

Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Dylech chi rannu eich amser yn unol â hynny.

Mae cyfanswm o 80 marc ar gael.

Cofiwch fod angen i chi ysgrifennu eich atebion mewn Cymraeg da a'u cyflwyno'n drefnus. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio atalnodi a gramadeg priodol, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 9.

© WJEC CBAC Ltd.

*Atebwch **bob** cwestiwn.*

**1.** Rhowch **ddwy** fantais bosibl a **dwy** anfantais bosibl o ddefnyddio pren wedi'i saernïo i greu ffurf adeileddol. [4]

Mantais dros bren solet yw y gall cynnyrch pren wedi'i saernïo o ddyfnder cyfartal rychwantu ymhellach, gan wneud ei ddefnydd yn fwy hyblyg. ✓

Mantais arall dros bren solet yw bod cynnyrch pren wedi'i sernïo yn llai tebygol o gamdroi neu ystumio ac ni fydd ganddo unrhyw wendidau naturiol, fel ceinciau. ✓ PB 5 a 6

Anfantais dros bren solet yw bod cynnyrch pren wedi'i saernïo yn debygol o fod yn ddrud i'w ddefnyddio mewn adeiladau domestig safonol. ✓ Ymateb Dilys Arall (YDA)

Anfantais arall dros bren solet yw y bydd gan gynnyrch pren wedi'i saernïo lai o wytnwch yn erbyn tân gan na fydd ond yn ymdopi â hyn a hyn o olosgi cyn methu.

✓ PB 3

4

© WJEC CBAC Ltd.

**2.** (a) Disgrifiwch **ddau** weithgaredd sy'n digwydd yn ystod y cyfnod adeiladu yng nghylchred oes adeilad. [4]

Gwaith adeiladu ar y safle gan gynnwys adeiladu pob is-strwythur, aradeiledd, gorffeniadau a ffitiadau, a gosod gwasanaethau. ✓ PB 4/5 ond ni ddisgrifiwyd y naill na'r llall.

Chwilio am fân broblemau yna trosglwyddo i'r Cleient ✓ ac yna gwaith cywiro yn ystod cyfnod atebolrwydd am ddiffygion. ✓ YDA.

3

(b) Disgrifiwch **ddau** wahanol weithgaredd sy'n digwydd yn ystod y cyfnod dymchwel/ailbwrpasu yng nghylchred oes adeilad. [4]

Datgysylltu a gwneud gwasanaethau prif gyflenwad yn ddiogel. ✓ YDA.


Achub deunyddiau ailgylchadwy fel briciau wyneb, llechi to ac adrannau dur strwythurol. ✓PB4

© WJEC CBAC Ltd.

**3**. (a) Mae'r ffrâm bortal yn cael ei defnyddio'n aml i wneud gwaith adeiladu diwydiannol.

[4]

Braslunwch ffrâm bortal nodweddiadol a'i labelu hi i ddangos **tair** nodwedd.




4

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Esboniwch pam mae:

(i) ffrâm bortal yn arbennig o addas i adeiladau diwydiannol. [4]

Mae fframiau portal yn addas ar gyfer adeiladau diwydiannol sy'n gofyn am ardaloedd agored mawr ar gyfer gwaith cynhyrchu. ✓ PB2

Maent yn darparu rhychwant clir heb byst canol, ✓ sy'n caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran arwynebedd llawr ac maen nhw'n cael eu saernïo oddi ar y safle ✓ felly'n lleihau amser y safle.

Mae eu bylchau modiwlaidd yn caniatáu agoriadau mawr fel drysau rholio y gellir eu defnyddio gan dryciau fforch godi ar gyfer danfoniadau. ✓ YDA

4

(ii) adeiladwaith waliau ceudod yn arbennig o addas i dai preswyl. [4]

Mae waliau ceudod wedi'u cynllunio i atal lleithder treiddiol ✓ gyda chrwyn wedi'u hinswleiddio yn darparu amgylchedd addas ar gyfer byw. ✓

Caiff waliau ceudod eu hadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol y mae'r diwydiant adeiladu tai yn gyfarwydd â nhw ✓ ac yn defnyddio crefftau priodol. Mae cynllun gwarantu Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC) wedi'i gynllunio i gynnwys tai a adeiladwyd yn draddodiadol ✓

4

© WJEC CBAC Ltd.

**4.** (a) Amlinellwch y materion byddai angen i ddatblygwr eiddo eu hystyried wrth ailwampio adeilad sy'n bodoli ac sydd wedi'i adeiladu o fewn y 50 mlynedd diwethaf. [6]

Bydd hyn yn dibynnu ar y defnydd a fwriedir. Bydd cyflwr y strwythur a'r adeiledd presennol yn ystyriaeth bwysig gan y gallai'r ddau fod yn ddrud i'w hadnewyddu os ydynt mewn cyflwr gwael.

Graddau / potensial ar gyfer cyfleusterau parcio ar y safle a'u lleoliad mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Manyleb ac ansawdd y deunyddiau presennol a ddefnyddiwyd mewn perthynas â safonau modern ar gyfer perfformiad o ran inswleiddio thermol, gallu gwrthsefyll tân ac ati.

Gwybodaeth ddiogel yn gyffredinol ar gyfer band marc 2.4 marc

(b) Amlinellwch y materion ychwanegol gallai fod angen i ddatblygwr eiddo eu hystyried wrth ailwampio adeilad gafodd ei adeiladu cyn 1919. [6]

Cyfyngiadau treftadaeth a chadwraeth os yw'r adeilad o werth hanesyddol, a all ychwanegu cost sy'n deillio o ddewis ac argaeledd deunyddiau.

Problemau cydgysylltu wrth geisio paru neu ymestyn yr adeilad presennol sy'n deillio o wahanol systemau mesur.

Uwchraddio dulliau mynediad, llwybrau cylchredeg a chyfleusterau lles i letya defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Gwybodaeth drylwyr ar gyfer band marc 3.5 marc

© WJEC CBAC Ltd.

**5.** Disgrifiwch rôl syrfëwr meintiau, ac amlinellwch sut mae hi'n newid os yw'r unigolyn dan sylw'n cael ei gyflogi gan y cleient neu gan y contractwr. [6]

Darparu cyngor ac amcangyfrifon cost cychwynnol ynghylch cynigion adeiladu.

Paratoi biliau meintiau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â chostau at ddibenion tendro.

Cynghori ar gontractau a pharatoi prisiadau interim yn ystod y gwaith ar y safle. Cytuno ar gost derfynol y contract.

Gwybodaeth drylwyr am rôl ar gyfer band marc 3, ond nid yw cyfrifoldebau gwahanol yn cael eu cynnwys. Ffit gorau gwaelod bm 2. 3 marc

© WJEC CBAC Ltd.

**6.** Disgrifiwch y prif faterion i'w hystyried wrth ddylunio agoriad mewn wal geudod allanol ar gyfer drws. [6]

Angen cynheiliaid dros dro - propiau, nodwyddau ac ati a'r posibilrwydd o baru gorffeniadau wal allanol presennol ar ôl eu cwblhau.

Lled yr agoriad (rhychwant) a thrwch y wal.

Llwytho i'w gario.

Math o lintel i'w ddefnyddio.

Manylion er mwyn osgoi pontio oer – llwybrau heb eu hinsiwleiddio o'r tu allan i'r tu mewn.

Manylion i osgoi bod lleithder yn treiddio i’r pen a'r ystlysbyst.

Cywiro gorffeniadau mewnol. Gleiniau gorffen, delltydd ac ati.

Gwybodaeth drylwyr ar gyfer band marc 3, sy'n ymdrin â meysydd pwysig fel llwythi a thrwch wal nad ydynt wedi'u cynnwys yn MS. Brig BM 3- 6 marc

© WJEC CBAC Ltd.

**7.** Mae'r gadwyn gyflenwi'n rhan bwysig o'r sector amgylchedd adeiledig ac mae'n hanfodol er mwyn cynnal projectau'n effeithlon.

(a) Disgrifiwch **un** fantais bosibl ac **un** anfantais bosibl sydd gan gontract dylunio ac adeiladu o gymharu â chontract traddodiadol. [4]

Mantais: Penodir prif gontractwr yn gynnar yn y prosiect, bydd yn darparu mewnbwn ✓ technegol arbenigol a bydd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses ddylunio er mwyn sicrhau bod yr adeilad arfaethedig yn cyfateb i gyllideb ac amserlen y cleientiaid. ✓

Un anfantais fyddai bod y cleient yn cael yr hyn y mae'r contractwr ei eisiau o ran ✓ ansawdd a bydd yn anodd cytuno ar newidiadau yn ddiweddarach yn y broses sy'n effeithio ar y rhaglen adeiladu. ✓

4

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Disgrifiwch sut gallai Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 effeithio ar sefydliad, o ran y busnes ei hun a'i gadwynau cyflenwi. [6]

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â sefydliadau mawr ac yn eu gwneud nhw'n gyfrifol am sicrhau nad ydyn nhw na'u cyflenwyr yn mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau ynghylch cyflog teg ac amodau gwaith rhesymol.

Bydd hyn yn mynd yn fwy cymhleth pan fydd cadwyni cyflenwi hir yn cymryd rhan, yn enwedig pan fydd cyflenwyr wedi eu lleoli mewn gwahanol wledydd.

Bydd sefydliadau y canfuwyd eu bod yn groes i'r Ddeddf yn cael dirwy ac yn cael eu gwneud i newid eu harferion gwaith - yn bwysicach na hynny byddant yn colli enw da a goblygiadau busnes hirdymor tebygol.

Disgrifiad da, gwybodaeth ddiogel ar y cyfan – BM 2, 4 marc

© WJEC CBAC Ltd.

**8.** (a) Disgrifiwch y technegau sydd ar gael wrth ymchwilio i'r isbridd ar safle. [6]

Yn gyntaf, bydd yn bwysig cynnal ymchwil ddesg i gael gwybod am ganfyddiadau ymchwiliadau blaenorol, gan gynnwys mathau o bridd, llifogydd, hen weithfeydd mwyngloddio a gwasanaethau tanddaearol.

Bydd angen gwirio canfyddiadau ymchwil ar y safle gan ddefnyddio technegau profi sy’n tarfu a rhai nad ydynt yn tarfu. Bydd y rhain yn cynnwys pyllau prawf a samplu isbriddoedd ar gyfer profion labordy pellach ar gyfer halogyddion a mathau o bridd / dosbarthiad.

Bydd profion ar y safle yn sefydlu dyfnderoedd, cynnwys lleithder, croesrymoedd a chryfder cywasgol. Efallai y bydd angen drilio craidd i ymchwilio i briddoedd ar ddyfnderoedd dyfnach os na cheir isbriddoedd addas yn y tyllau prawf.

Disgrifad da iawn, BM3 – 5 marc.

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Mae datblygwr wedi prynu llain o dir. Mae ei allu i gynnal pwysau'n wael ac mae wedi dioddef llifogydd yn y gorffennol. [8]

Esboniwch yn fanwl sut gallai'r datblygwr wella'r isbridd cyn gwneud unrhyw waith adeiladu ar y tir hwn.

Atgyweirio neu osod draeniad ychwanegol o gwmpas y perimedr i helpu i gael gwared ar ddŵr daear dros ben a lleihau llifogydd yn y dyfodol.

Gallai chwistrellu deunyddiau helpu i drosi dŵr daear yn ddeunyddiau mwy solet.

Bydd cywasgu is-bridd ar yr wyneb yn helpu os yw sylfeini bas i'w defnyddio, neu gallai cywasgu dirgrynnol gan ddefnyddio llenwadau gronynnog helpu i sefydlogi'r tir i dderbyn rafftiau arwynebedd eang drwy leihau nifer y bylchau yn yr is-briddoedd.

Fel arall, gellid cynllunio system o byst sylfaen i ddileu pryderon ynghylch amodau tir bas.

Gwybodaeth ddiogel ar y cyfan– BM 3, 6 marc

© WJEC CBAC Ltd.

**9.** Mae systemau draenio trefol cynaliadwy (*sustainable urban drainage systems*: SuDS) yn nodwedd sy'n mynd yn bwysicach yn yr amgylchedd adeiledig.

Enwch rai systemau draenio trefol cynaliadwy, a gwerthuswch fanteision ac anfanteision allweddol y rhain. [8]

Toeau gwyrdd

Ffosydd cerrig a lleiniau hidlo

Cynaeafu dŵr glaw

Gwelyau cyrs

Pyllau a basnau

Pantiau

Gwlypdiroedd

Mae'r technegau hyn i gyd wedi'u cynllunio i ddarparu storfa dŵr storm dros dro er mwyn atal llifau brig rhag cael eu rhyddhau'n uniongyrchol i ddraeniau cyhoeddus a allai orlifo gan achosi llifogydd a llygredd lleol.

Bydd yr SUDS yn storio'r dŵr storm ac yn caniatáu iddo hidlo i'r ddaear drwy amsugno'n naturiol dros amser. Gellir eu defnyddio i ddarparu nodweddion a chynefinoedd deniadol ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae anfanteision yn cynnwys lefel uchel o waith cynnal a chadw a chost dyrannu rhannau helaeth o dir i SUDS.

Mae'r ymateb yn gryno mewn mannau ond mae'n cwmpasu'r prif bwyntiau.BB 3 – 6 marc.

CYFANSWM = 66 / 80 = 82%

© WJEC CBAC Ltd.

Parhad yn unig

© WJEC CBAC Ltd.

# CYNLLUN MARCIO

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn ennill marciau llawn ac i ymateb gwael iawn beidio ag ennill unrhyw farciau o gwbl. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gynhwysfawr. Mae cynnwys ymadrodd fel 'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall' (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu rhywfaint o amrywiad yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Yn TAG Amgylchedd Adeiledig Uned 1, bydd pob cwestiwn yn mynd i'r afael ag un amcan asesu.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

© WJEC CBAC Ltd.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | *Rhowch ddwy fantais bosibl a dwy anfantais bosibl o ddefnyddio pren wedi'i saernïo i greu ffurf adeileddol.* | 4 | | | 4 |
| | Rhowch **un** marc am bob mantais bosibl o ddefnyddio pren wedi'i saernïo (hyd at ddwy), er enghraifft:<br>• gellir eu ffabrigo nhw'n fanwl gywir/at safon uchel oddi ar y safle<br>• mae pren wedi'i saernïo ar gael mewn meintiau mawr<br>• mae'n gallu helpu i wneud y broses adeiladu'n gyflymach/mwy effeithlon<br>• mae'n defnyddio pren, sy'n adnodd cynaliadwy<br>• mae'n gallu bod yn gryfach/yn fwy amlbwrpas na phren naturiol<br>• mae'n gallu bod yn llai tueddol o bannu/camdroi na phren naturiol.<br><br>Rhowch **un** marc am bob anfantais bosibl o ddefnyddio pren wedi'i saernïo (hyd at ddwy), er enghraifft:<br>• gall fod angen sgiliau/offer arbenigol i'w osod/cydosod<br>• gall y broses o drawsgludo trychiadau hir i'r safle fod yn gymhleth/yn ddrud<br>• gall fod angen araen diogelu rhag tân<br>• mae rhai cynhyrchion pren wedi'i saernïo'n fwy tueddol o gael eu difrodi/eu haflunio gan leithder na phren naturiol<br>• mae'n gallu colli lliw o dan olau uwchfioled<br>• gall fod angen ei gynnal a'i gadw dros amser.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |


© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | (a) | *Disgrifiwch ddau weithgaredd sy'n digwydd yn ystod y cyfnod adeiladu yng nghylchred oes adeilad.* | 4 | | | 4 |
| | | Rhowch **un** marc am ddisgrifiad sylfaenol o bob gweithgaredd, er enghraifft:<br>• penodi contractwyr i adeiladu'r adeilad<br>• danfon defnyddiau i'r safle<br>• gweithgynhyrchu cydrannau<br>• adeiladu/cydosod yr adeilad<br>• gosod gwasanaethau yn yr adeilad.<br><br>Rhowch **ddau** farc am ddisgrifiad mwy datblygedig o bob gweithgaredd, er enghraifft:<br>• penodi nifer ac amrywiaeth addas o gontractwyr, gan ystyried math a maint yr adeilad, a'r amserlen ar gyfer ei gwblhau<br>• archebu digon o ddefnyddiau crai, eu danfon nhw i'r safle a'u storio nhw os oes angen, i sicrhau eu bod nhw ar gael yn rhwydd pan fydd eu hangen nhw<br>• (y contractwr neu fusnes arall) yn gweithgynhyrchu darnau cydrannol yr adeilad oddi ar y safle a'u danfon mewn da bryd i ganiatáu i'r gwaith adeiladu ddigwydd yn effeithlon<br>• adeiladu'r adeiledd yn y ffordd draddodiadol ar y safle, neu ei gydosod o gydrannau parod<br>• gosod a chomisiynu gwasanaethau mecanyddol, trydanol, cyflenwad dŵr a draenio.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch ddau wahanol weithgaredd sy'n digwydd yn ystod y cyfnod dymchwel/ailbwrpasu yng nghylchred oes adeilad.* | 4 | | | 4 |
| | | Rhowch **un** marc am ddisgrifiad sylfaenol o bob gweithgaredd, er enghraifft:<br>• cael caniatâd i ddymchwel yr adeilad*<br>• datgymalu/dymchwel yr adeiledd presennol i wneud lle i adeiledd newydd<br>• ailwampio/addasu'r adeilad<br>• ailddefnyddio neu ailgylchu defnyddiau<br>• paratoi'r safle am ddatblygiad newydd.<br><br>Rhowch **ddau** farc am ddisgrifiad mwy datblygedig o bob gweithgaredd, er enghraifft:<br>• cadarnhau caniatâd perthnasol, fel caniatâd i estyn neu ddymchwel adeilad(au) sy'n bodoli/cydsyniad ardaloedd cadwraeth*<br>• datgymalu/dymchwel yr adeiledd presennol i wneud lle i adeiledd/datblygiad newydd a chael gwared â defnyddiau gwastraff oddi ar y safle<br>• ailwampio, estyn, a/neu addasu'r adeilad yn ôl y galw i fod yn addas i sut maen nhw'n bwriadu defnyddio'r safle yn y dyfodol<br>• adennill, ailddefnyddio ac ailgylchu defnyddiau o'r adeiledd sy'n bodoli fel y bo'n briodol, er mwyn cadw ychydig o nodweddion/cymeriad gwreiddiol yr adeilad<br>• paratoi'r safle i ddarparu cyfle i ddatblygu ar safle tir llwyd er mwyn dylunio project newydd.<br><br>**peidiwch â rhoi'r marc os yw hyn wedi cael marc yn barod yn rhan (a), oherwydd mae'r cwestiwn yn gofyn am ddisgrifiad o 'ddau wahanol weithgaredd'.*<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | (a) | *Mae'r ffrâm bortal yn cael ei defnyddio'n aml i wneud gwaith adeiladu diwydiannol.*<br><br>*Brasluniwch ffrâm bortal nodweddiadol a'i labelu hi i ddangos tair nodwedd.* | 4 | | | 4 |
| | | Rhowch **un** marc am fraslun priodol o ffrâm bortal.<br><br>Sylwch, does dim marc *ansawdd* am y braslun – dylid rhoi'r marc os yw hi'n glir mai ffrâm bortal sydd yn y braslun.<br><br>Rhowch **un** marc am bob un o nodweddion y ffrâm bortal sydd wedi'i labelu'n gywir (hyd at dair), er enghraifft:<br><br><br><br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | (i) | *Esboniwch pam mae:*<br>*ffrâm bortal yn arbennig o addas i adeiladau diwydiannol.* | | 4 | | 4 |
| | Rhowch **un** marc am esboniad cyfyngedig o pam mae ffrâm bortal yn arbennig o addas i adeiladau diwydiannol, er enghraifft:<br>• mae fframiau portal yn fodd adeiladu cost-effeithiol<br>• gall fframiau portal lenwi lleoedd mawr.<br><br>Rhowch **ddau** farc am esboniad sylfaenol o pam mae ffrâm bortal yn arbennig o addas i adeiladau diwydiannol, er enghraifft:<br>• mae fframiau portal yn fodd adeiladu cost-effeithiol oherwydd does dim angen llawer o ddefnydd ar fframwaith yr adeilad<br>• mae fframiau portal yn ein galluogi ni i adeiladu adeiladau llydan heb fod angen cynheiliaid yn y canol.<br><br>Rhowch **dri** marc am esboniad mwy datblygedig o pam mae ffrâm bortal yn arbennig o addas i adeiladau diwydiannol, er enghraifft:<br>• mae fframiau portal yn fodd adeiladu cost-effeithiol oherwydd does dim angen cymaint o ddefnydd ar fframwaith yr adeilad ag wrth ddefnyddio dulliau eraill, ac mae'n bosibl cydosod y fframwaith a gosod cladin arno'n gyflym ar y safle<br>• mae fframiau portal yn ein galluogi ni i adeiladu adeiladau llydan heb fod angen cynheiliaid yn y canol, a gellir defnyddio unrhyw nifer o fframiau portal i lawr hyd yr adeilad i ffurfio warysau neu ffatrïoedd hir iawn.<br><br>Rhowch **bedwar** marc am esboniad cwbl ddatblygedig o pam mae ffrâm bortal yn arbennig o addas i adeiladau diwydiannol, er enghraifft:<br>• mae fframiau portal yn fodd adeiladu cost-effeithiol oherwydd does dim angen cymaint o ddefnydd ar fframwaith yr adeilad ag wrth ddefnyddio dulliau eraill, ac mae'n bosibl gweithgynhyrchu'r fframwaith yn effeithlon ac yn fanwl gywir oddi ar y safle, ac yna ei gydosod a gosod cladin arno'n gyflym ar y safle<br>• mae fframiau portal yn ein galluogi ni i adeiladu adeiladau llydan heb fod angen cynheiliaid yn y canol, gellir defnyddio unrhyw nifer o fframiau portal i lawr hyd yr adeilad i ffurfio warysau neu ffatrïoedd hir iawn, ac mae'n gymharol hawdd estyn yr adeilad pe bai anghenion y busnes yn newid.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (ii) | *adeiladwaith waliau ceudod yn arbennig o addas i dai preswyl.* | | 4 | | 4 |
| | Rhowch **un** marc am esboniad cyfyngedig o pam mae adeiladwaith waliau ceudod yn arbennig o addas i dai preswyl, er enghraifft:<br>• mae waliau ceudod yn ynysu'r tŷ yn dda<br>• mae waliau ceudod yn helpu i atal lleithder yn y tŷ.<br><br>Rhowch **ddau** farc am esboniad sylfaenol o pam mae adeiladwaith waliau ceudod yn arbennig o addas i dai preswyl, er enghraifft:<br>• mae waliau ceudod yn darparu ynysiad thermol da, sy'n briodwedd bwysig i dŷ gan ei fod yn gallu helpu i leihau biliau gwresogi/defnyddio llai o egni a gwneud y tŷ yn fwy cysurus<br>• mae waliau ceudod yn helpu i atal lleithder yn y tŷ oherwydd mae'r ceudod yn gweithredu fel rhwystr rhwng y wal allanol (wlyb) a'r wal fewnol, gan wneud y tŷ yn fwy cysurus.<br><br>Rhowch **dri** marc am esboniad mwy datblygedig o pam mae adeiladwaith waliau ceudod yn arbennig o addas i dai preswyl, er enghraifft:<br>• mae waliau ceudod yn darparu ynysiad thermol da, sy'n briodwedd bwysig i dŷ gan ei fod yn gallu helpu i leihau biliau gwresogi/defnyddio llai o egni mewn tywydd oer a gwneud y tŷ yn fwy cysurus mewn tywydd poeth ac oer. Maent hefyd yn dda am ynysu sain, sydd hefyd yn dda i gysur y preswylwyr<br>• mae waliau ceudod yn helpu i atal lleithder yn y tŷ oherwydd mae'r ceudod yn gweithredu fel rhwystr rhwng y wal allanol (wlyb) a'r wal fewnol, sy'n dda i gysur, iechyd a llesiant y preswylwyr. Maent hefyd yn fwy cost-effeithiol i'w hadeiladu na waliau solet.<br><br>Rhowch **bedwar** marc am esboniad cwbl ddatblygedig o pam mae adeiladwaith waliau ceudod yn arbennig o addas i dai preswyl, er enghraifft:<br>• mae waliau ceudod yn darparu ynysiad thermol da, sy'n briodwedd bwysig i dŷ gan ei fod yn gallu helpu i leihau biliau gwresogi/defnyddio llai o egni mewn tywydd oer a gwneud y tŷ yn fwy cysurus mewn tywydd poeth ac oer. Maent hefyd yn rhoi cyfle i osod defnydd ynysu yn y ceudod i wella'r perfformiad thermol eto, ac maent yn dda am ynysu sain, sydd hefyd yn dda i gysur y preswylwyr<br>• mae waliau ceudod yn helpu i atal lleithder yn y tŷ oherwydd mae'r ceudod yn gweithredu fel rhwystr rhwng y wal allanol (wlyb) a'r wal fewnol, sy'n dda i gysur, iechyd a llesiant y preswylwyr. Maent hefyd yn fwy cost-effeithiol i'w hadeiladu na waliau solet ac yn rhoi llai o bwysau ar sylfeini'r adeilad.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | (a) | *Amlinellwch y materion byddai angen i ddatblygwr eiddo eu hystyried wrth ailwampio adeilad sy'n bodoli ac sydd wedi'i adeiladu o fewn y 50 mlynedd diwethaf.* | 6 | | | 6 |
| | | Gallai atebion gyfeirio at y materion canlynol y dylid eu hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu o fewn y 50 mlynedd diwethaf:<br><br>• gall fod angen mwy o le i uwchraddio technolegau sy'n bodoli<br>• yr angen i sicrhau cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu a/neu Ganiatâd Cynllunio i wneud gwaith sylweddol / estyniad<br>• yr angen i gynnal arolwg ar gyfer unrhyw gydrannau yn yr adeilad sy'n cynnwys asbestos, a chael gwared â'r defnydd yn ddiogel os oes angen<br>• gwaith adeileddol y mae ei angen ar gyfer llwythi trymach, er enghraifft os yw'n tynnu waliau cynnal pwysau neu'n cynyddu maint agoriadau<br>• gweithio fesul cam, fesul llawr neu ardal, er mwyn gallu gwneud y gwaith ailwampio mewn modd mor effeithlon â phosibl<br>• cydnawsedd rhwng yr adeiledd newydd a'r adeiledd presennol<br>• diogelu rhag y tywydd rhwng yr adeiledd newydd a'r adeiledd presennol<br>• cyfateb i liw a gwead y defnyddiau ffasâd presennol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am faterion posibl i'w hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu o fewn y 50 mlynedd diwethaf<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ailwampio'r amgylchedd adeiledig. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am faterion posibl i'w hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu o fewn y 50 mlynedd diwethaf<br>• dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ailwampio'r amgylchedd adeiledig. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am faterion posibl i'w hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu o fewn y 50 mlynedd diwethaf<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ailwampio'r amgylchedd adeiledig. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Amlinellwch y materion ychwanegol gallai fod angen i ddatblygwr eiddo eu hystyried wrth ailwampio adeilad gafodd ei adeiladu cyn 1919.* | 6 | | | 6 |
| | | Gallai atebion gyfeirio at y materion canlynol y dylid eu hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu cyn 1919:<br><br>• cydgysylltu dimensiynau metrig i imperial drwy'r eiddo i gyd<br>• yr angen i gael Caniatâd Adeilad Rhestredig os yw'n ailwampio adeilad rhestredig<br>• defnyddio yr un math o ddefnyddiau lle bynnag y bo'n bosibl<br>• unrhyw gyfyngiadau o ran cynllunio sy'n effeithio ar y gwaith ailwampio neu sut caiff yr eiddo ei ddefnyddio<br>• y siawns y bydd angen sylfeini dyfnach ar unrhyw adeiledd newydd o gymharu â'r sylfeini presennol<br>• cyfateb lefelau'r lloriau rhwng y darn gwreiddiol o'r adeilad ac unrhyw ddarnau newydd<br>• y posibilrwydd y bydd angen cymal ehangu a chymal cyfangu rhwng yr adeiledd presennol a'r adeiledd newydd.<br><br>*Peidiwch â rhoi marc i ateb os yw wedi cael marc yn barod yn rhan (a), oherwydd mae'r cwestiwn yn gofyn am amlinelliad o 'faterion ychwanegol'.*<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am faterion posibl i'w hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu cyn 1919<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ailwampio adeiladau traddodiadol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am faterion posibl i'w hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu cyn 1919<br>• dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ailwampio adeiladau traddodiadol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am faterion posibl i'w hystyried wrth ailwampio adeilad sydd wedi'i adeiladu cyn 1919<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ailwampio adeiladau traddodiadol. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | *Disgrifiwch rôl syrfëwr meintiau, ac amlinellwch sut mae hi'n newid os yw'r unigolyn dan sylw'n cael ei gyflogi gan y cleient neu gan y contractwr.* | 6 | | | 6 |
| | Gall yr atebion gyfeirio at yr agweddau canlynol ar rôl syrfëwr meintiau:<br><br>• rhoi cyngor arbenigol am gostau adeiladu<br>• sicrhau bod projectau'n fforddiadwy ac yn rhoi gwerth da am arian<br>• ystyried gwahanol opsiynau a'u heffaith ar gyfanswm costau<br>• sicrhau bod costau'n aros dan reolaeth wrth i broject ddigwydd.<br><br>Dylai'r disgrifiad amlinellu sut mae'r rhain yn amrywio gan ddibynnu ai'r cleient neu'r contractwr yw'r cyflogwr.<br><br>Wrth weithio i gleient:<br>• mae'r syrfëwr meintiau'n gweithredu fel ymgynghorydd ac yn gwerthuso anghenion y cleient ac yn rhoi cyngor arbenigol am yr hyn mae angen ei wneud<br>• mae'r syrfëwr meintiau'n ceisio rheoli costau project drwy ystyried y gwaith y mae ei angen (llafur, defnyddiau, peiriannau y mae eu hangen), a goblygiadau penderfyniadau dylunio i sicrhau gwerth da am arian.<br><br>Wrth weithio i gontractwr:<br>• mae'r syrfëwr meintiau'n gwneud y gwaith ac yn cynnal projectau o ddydd i ddydd gan ganolbwyntio ar y gwaith mae'r contractwr yn ei wneud, gan sicrhau ei fod yn cadw o fewn y gyllideb<br>• mae rôl y syrfëwr meintiau'n cynnwys datblygu is-gontractau, rhagfynegi costau a llif arian.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am rôl syrfëwr meintiau<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae'r rôl yn newid os yw'r syrfëwr meintiau'n cael ei gyflogi gan y cleient neu gan y contractwr. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am rôl syrfëwr meintiau<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae'r rôl yn newid os yw'r syrfëwr meintiau'n cael ei gyflogi gan y cleient neu gan y contractwr. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am rôl syrfëwr meintiau<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae'r rôl yn newid os yw'r syrfëwr meintiau'n cael ei gyflogi gan y cleient neu gan y contractwr. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **6.** | *Disgrifiwch y prif faterion i'w hystyried wrth ddylunio agoriad mewn wal geudod allanol ar gyfer drws.* | 6 | | | 6 |
| | Gallai atebion gyfeirio at y materion canlynol y dylid eu hystyried wrth ddylunio agoriad mewn wal geudod allanol ar gyfer drws:<br><br>• gosod capan drws i gynnal y wal/gwaith brics uwchben y drws<br>• ynysu'r capan drws i atal 'pontydd oer'/mannau oer/anwedd<br>• yr angen am:<br>    • blwch ceudod fel bod dŵr yn draenio allan uwchben yr agoriad<br>    • pen stopio ar ddau ben y capan drws i atal dŵr rhag mynd i mewn i'r ceudod<br>    • awyrellau/tyllau diferu dros y capan drws i adael i ddŵr ddraenio allan<br>• mewnosod caewyr waliau ceudod wedi'u hynysu i atal dŵr rhag mynd i mewn i'r ceudod/lleithder/anwedd/colledion gwres<br>• cwblhau'r gorffeniadau mewnol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am y prif faterion i'w hystyried wrth ddylunio agoriad mewn wal geudod allanol ar gyfer drws<br>• dealltwriaeth hyderus o bwrpas y cydrannau sy'n cael eu defnyddio. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am y prif faterion i'w hystyried wrth ddylunio agoriad mewn wal geudod allanol ar gyfer drws<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o bwrpas y cydrannau sy'n cael eu defnyddio. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am y prif faterion i'w hystyried wrth ddylunio agoriad mewn wal geudod allanol ar gyfer drws<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o bwrpas y cydrannau sy'n cael eu defnyddio. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | | *Mae'r gadwyn gyflenwi'n rhan bwysig o'r sector amgylchedd adeiledig ac mae'n hanfodol er mwyn cynnal projectau'n effeithlon.* | | | | |
| | (a) | *Disgrifiwch un fantais bosibl ac un anfantais bosibl sydd gan gontract dylunio ac adeiladu o gymharu â chontract traddodiadol.* | 4 | | | 4 |
| | | Rhowch **un** marc am ddisgrifiad sylfaenol o fantais bosibl i gontract dylunio ac adeiladu, er enghraifft:<br>• gwybod cost y project yn gynnar<br>• mae angen llai o fewnbwn ac arbenigedd gan y cleient ar gyfer y math hwn o gontract<br>• mae'n rhoi un pwynt cyswllt ar gyfer y project cyfan.<br><br>Rhowch **ddau** farc am ddisgrifiad mwy datblygedig o fantais bosibl i gontract dylunio ac adeiladu, er enghraifft:<br>• gwybod cost y project yn gynnar gan mai dim ond un cwmni sy'n cael ei gyflogi a'ch bod chi'n cytuno ar y dyluniad o'r dechrau<br>• mae angen llai o waith rheoli, mewnbwn ac arbenigedd gan y cleient ar gyfer y math hwn o gontract gan fod y contractwr yn gyfrifol am bob agwedd ar y project<br>• mae'n rhoi un pwynt cyswllt ar gyfer y project, felly does dim rhaid i'r cleient ddelio â gwahanol gwmnïau ar wahanol gamau yn y project.<br><br>Rhowch **un** marc am ddisgrifiad sylfaenol o anfantais bosibl i gontract dylunio ac adeiladu, er enghraifft:<br>• safbwyntiau'r dylunydd a'r contractwr yn cymysgu<br>• llai o reolaeth i'r cleient dros ddyluniad/manyleb yr adeilad<br>• mae'n dibynnu ar allu'r contractwr i ddelio â dylunio ac adeiladu'r project yn hytrach nag un agwedd ar y gwaith.<br><br>Rhowch **ddau** farc am ddisgrifiad mwy datblygedig o anfantais bosibl i gontract dylunio ac adeiladu, er enghraifft:<br>• safbwyntiau'r dylunydd a'r contractwr yn cymysgu, felly gallai'r gwaith dylunio ddangos tuedd at hoff ddewisiadau'r contractwr yn hytrach na dymuniadau'r cleient<br>• llai o reolaeth i'r cleient dros ddyluniad/manyleb yr adeilad gan fod y contractwr yn cymryd rheolaeth dros hyn, a gallai unrhyw addasiad arwain at gostau uwch<br>• mae'n dibynnu ar allu'r contractwr i ddelio â dylunio ac adeiladu'r project yn hytrach nag arbenigo mewn un agwedd ar y gwaith, ac efallai na fydd hyn yn ddelfrydol, yn enwedig ar gyfer dyluniadau mwy cymhleth.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut gallai Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 effeithio ar sefydliad, o ran y busnes ei hun a'i gadwynau cyflenwi.* | 6 | | | 6 |
| | | Gallai atebion gyfeirio at y materion canlynol allai effeithio ar y busnes a'i gadwynau cyflenwi:<br>• mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn effeithio ar gwmnïau mawr (h.y. â refeniw byd-eang o £36m neu fwy) sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig<br>• ers 2016, mae'n rhaid i'r cwmnïau hyn gofnodi eu hymdrechion i sicrhau nad oes dim caethwasiaeth, llafur gorfodol na masnachu mewn pobl yn digwydd yn eu busnes na'u cadwynau cyflenwi<br>• mae'n rhaid i'r cwmnïau hynny gynhyrchu datganiad caethwasiaeth fodern blynyddol<br>• mae'n rhaid i'r datganiad gael cymeradwyaeth bwrdd y cyfarwyddwyr/ei lofnodi gan gyfarwyddwr<br>• os yw'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn effeithio ar gwmni mawr, mae'n debygol y bydd rhaid i'r cwmni fynnu bod eu cyflenwyr/isgontractwyr yn archwilio eu cyflenwyr/isgontractwyr eu hunain i sicrhau nad oes dim caethwasiaeth fodern yn digwydd<br>• mae hyn yn golygu bod y Ddeddf hefyd yn effeithio ar gwmnïau bach yn y gadwyn gyflenwi gan fod angen i'r rhain ystyried eu harferion a'u perthynas â'u cyflenwyr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif ofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar sefydliadau a chadwynau cyflenwi. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o brif ofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar sefydliadau a chadwynau cyflenwi. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif ofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar sefydliadau a/neu gadwynau cyflenwi. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **8.** | (a) | *Disgrifiwch y technegau sydd ar gael wrth ymchwilio i'r isbridd ar safle.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y technegau canlynol ar gyfer ymchwilio i isbridd:<br>• cloddio tyllau treialu (profi) â llaw neu â pheiriant (cloddiwr) i wneud ymchwiliadau cymharol fas, er mwyn:<br>  • galluogi archwiliadau gweledol a chasglu samplau pridd mawr<br>  • profi am halogiad<br>• drilio tyllau turio, i wneud ymchwiliadau dyfnach<br>• samplu pridd y safle yn y fan a'r lle:<br>  • tarfu cyn lleied â phosibl ar y pridd<br>  • i brofi dwysedd y pridd/ei allu i gynnal pwysau/ei gryfder croesrym<br>  • i ganfod gwasgedd dŵr daear a chynnwys lleithder<br>• mae profion yn y fan a'r lle yn cynnwys:<br>  • prawf treiddiad safonol (dwysedd)<br>  • prawf llafnau (croesrym)<br>  • prawf plât pwysau (gallu i gynnal pwysau).<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am y technegau sydd ar gael wrth ymchwilio i'r isbridd ar safle<br>• dealltwriaeth hyderus o ddefnyddio technegau profi pridd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan am rai o'r technegau sydd ar gael wrth ymchwilio i'r isbridd ar safle<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddefnyddio technegau profi pridd. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am y technegau sydd ar gael wrth ymchwilio i'r isbridd ar safle<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o ddefnyddio technegau profi pridd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae datblygwr wedi prynu llain o dir. Mae ei allu i gynnal pwysau'n wael ac mae wedi dioddef llifogydd yn y gorffennol.*<br><br>*Esboniwch yn fanwl sut gallai'r datblygwr wella'r isbridd cyn gwneud unrhyw waith adeiladu ar y tir hwn.* | | 8 | | 8 |
| | | Gallai atebion gyfeirio at y ffyrdd canlynol o wella gallu'r isbridd i gynnal pwysau a draenio:<br>• cywasgu/arnofio dirgrynu, gan ddefnyddio dirgrynwr dyfnder i dreiddio i'r pridd, ac ôl-lenwi yn ôl yr angen i gywasgu'r isbridd a chynyddu ei ddwysedd, a gwella ei allu i gynnal pwysau<br>• cywasgu'r pridd gan ddefnyddio pwysau dynamig, drwy ollwng pwysyn trwm ar y pridd, i gyflawni canlyniadau tebyg<br>• growtio, drwy chwistrellu cymysgedd dŵr/tywod/sment i wneud y pridd yn fwy dwys<br>• sefydlogi cemegol, gan ddefnyddio sment neu galch i lynu'r pridd<br>• technegau cymysgu pridd, drwy gymysgu'n fecanyddol â glynwr sment neu galch<br>• gwella'r draenio, gan ddefnyddio graean, tywod neu ddefnyddiau synthetig, neu systemau o bibellau, i gael gwared â gormodedd dŵr o'r pridd.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gallai'r datblygwr wella gallu'r isbridd i gynnal pwysau a draenio yn y cyd-destun a roddwyd<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau allweddol gwella a sefydlogi pridd. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gallai'r datblygwr wella gallu'r isbridd i gynnal pwysau a draenio yn y cyd-destun a roddwyd<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o gysyniadau allweddol gwella a sefydlogi pridd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai'r datblygwr wella gallu'r isbridd i gynnal pwysau a/neu ddraenio yn y cyd-destun a roddwyd<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol gwella a sefydlogi pridd. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai'r datblygwr wella gallu'r isbridd i gynnal pwysau neu ddraenio yn y cyd-destun a roddwyd<br>• ychydig o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol gwella a sefydlogi pridd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **9.** | *Mae systemau draenio trefol cynaliadwy (sustainable urban drainage systems: SuDS) yn nodwedd sy'n mynd yn bwysicach yn yr amgylchedd adeiledig.*<br><br>*Enwch rai systemau draenio trefol cynaliadwy, a gwerthuswch fanteision ac anfanteision allweddol y rhain.* | | | 8 | 8 |
| | Gallai atebion gyfeirio at fanteision ac anfanteision y mathau canlynol o systemau draenio trefol cynaliadwy (SuDS):<br><br>• technoleg suddfannau dŵr<br>• pantiau<br>• pyllau a basnau draenio<br>• technoleg gwelyau cyrs<br>• lleiniau a draenio hidlo<br>• ardaloedd o wlyptir<br>• casglu dŵr glaw<br>• technoleg toeau gwyrdd.<br><br>*Mae'r manteision yn cynnwys:*<br>• Mae SuDS wedi'u dylunio i reoli draenio dŵr arwyneb yn effeithlon mewn amgylcheddau trefol<br>• Mae SuDS yn gallu dileu neu leihau'r angen am systemau draenio pibellau traddodiadol<br>• Mae SuDS yn helpu systemau draenio i ymdopi â dŵr ffo ar yr arwyneb sydd wedi cynyddu wrth i fwy o'r dirwedd gael ei disodli/gorchuddio ag arwynebau caled sydd ddim yn gadael i ddŵr fynd drwyddynt<br>• Mae SuDS yn helpu i reoli anterth llif dŵr i mewn i systemau draenio allai fethu ymdopi fel arall, gan arwain at lifogydd<br>• Bwriad SuDS yw delio â dŵr ffo ar yr arwyneb yn lleol yn hytrach na'i ryddhau'n gyflym i mewn i bibellau draenio neu ddyfrffyrdd<br>• Mae SuDS yn gallu gwella ansawdd bywyd mewn amgylcheddau trefol drwy gyflwyno mannau gwyrdd, gan eu gwneud nhw'n fwy gweledol ddeniadol a darparu cyfleusterau hamdden<br>• Mae SuDS yn gallu darparu cynefinoedd i fywyd gwyllt a lleihau llygredd/gwella ansawdd dŵr.<br><br>*Mae'r anfanteision yn cynnwys:*<br>• mae adeiladu SuDS yn gallu bod yn ddrud<br>• gallai cyflwyno pyllau a gwlyptiroedd mewn amgylchedd trefol gynyddu'r risg o ddamweiniau<br>• gall fod angen mwy o waith cynnal a chadw SuDS na systemau draenio eraill<br>• gallai fod angen defnyddio ardaloedd mawr er mwyn i SuDS fod yn effeithiol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Gwerthuso rhagorol sy'n dangos:<br>• barn graff a gwybodus am fanteision ac anfanteision allweddol systemau draenio trefol cynaliadwy mae wedi'u henwi<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl o gysyniad SuDS a'u manteision a'u hanfanteision posibl.<br><br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro a'i drefnu'n dda iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.<br>• Defnyddir amrediad eang o dermau arbenigol yn gywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Gwerthuso da sy'n dangos:<br>• barn resymegol am fanteision ac anfanteision allweddol systemau draenio trefol cynaliadwy mae wedi'u henwi<br>• ymdriniaeth drylwyr o gysyniad SuDS a'u manteision a'u hanfanteision posibl.<br><br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro a'i drefnu'n dda ar y cyfan, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan.<br>• Defnyddir terminoleg arbenigol yn gywir. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Gwerthuso sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am rai o fanteision a/neu anfanteision systemau draenio trefol cynaliadwy mae wedi'u henwi<br>• ymdriniaeth syml o gysyniad SuDS a'u manteision a/neu eu hanfanteision posibl.<br><br>• Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar yr ystyr.<br>• Defnydd sylfaenol o derminoleg arbenigol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Gwerthuso cyfyngedig sy'n dangos:<br>• prinder tystiolaeth o farn am fanteision neu anfanteision allweddol systemau draenio trefol cynaliadwy<br>• prinder ymdriniaeth o gysyniad SuDS a'u manteision neu eu hanfanteision posibl.<br><br>• Mae rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar eglurder y cyfathrebu.<br>• Defnydd cyfyngedig o dermau arbenigol. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

| Cwestiwn | | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | | | | | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | | | | | | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.1.1 | 2.1.2 | 2.1.3 | 2.1.4 | 2.1.5 | 2.1.6 | 2.1.7 | 2.1.8 | 2.1.9 | 2.1.10 | | | | | |
| **1** | | | | | | | 4 | | | | | | (b) | **4** | 4 | | |
| **2** | (a) | | 4 | | | | | | | | | | (a) | **4** | 4 | | |
| | (b) | | 4 | | | | | | | | | | (a) | **4** | 4 | | |
| **3** | (a) | | | 4 | | | | | | | | | (a)(b) | **4** | 4 | | |
| | (b) | (i) | | 4 | | | | | | | | | (c) | **4** | | 4 | |
| | | (ii) | | 4 | | | | | | | | | (c) | **4** | | 4 | |
| **4** | (a) | | | | | | | | | | 6 | | (a)(b) | **6** | 6 | | |
| | (b) | | | | | | | | | | 6 | | (b)(c) | **6** | 6 | | |
| **5** | | | | | 6 | | | | | | | | (d) | **6** | 6 | | |
| **6** | | | | | | | | | 6 | | | | (dd) | **6** | 6 | | |
| **7** | (a) | | | | | 4 | | | | | | | (c) | **4** | 4 | | |
| | (b) | | | | | 6 | | | | | | | (ch) | **6** | 6 | | |
| **8** | (a) | | | | | | | 6 | | | | | (a) | **6** | 6 | | |
| | (b) | | | | | | | 8 | | | | | (c) | **8** | | 8 | |
| **9** | | | | | | | | | | | | 8 | (b) | **8** | | | 8 |
| Cyfanswm marciau | | | **8** | **12** | **6** | **10** | **4** | **14** | **6** | **0** | **12** | **8** | | **80** | **56** | **16** | **8** |



© WJEC CBAC Ltd.